Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council

Cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd Nos Fercher, 3 Gorffennaf 2019 yn Neuadd Pentref Y Groeslon

Minutes of the Finance Committee Meeting held at Groeslon Village Hall, Wednesday, 3 July 2019 at 7.00pm

Yn bresennol / Present

Cynghorwyr/ Councillors Gwyn Owen Jones; Alun Wyn Jones ;David C Davies; Bryn Williams; Eddie Willcox; Hywel J Owen ; David Roberts Rheolwr/Manager.

1 Croeso'r Cadeirydd – Chairmans Welcome

Croesawyd pawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod gan Gadeirydd y Pwyllgor, Cyng. David C Davies.

i

2 Ymddiheuriadau am absenoldeb / Apologies for absences

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau / no apologies received.

3 Datgan Buddiant Personol Neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar unrhyw faterion ar y Rhaglen - Adran 51 Deddf Llywodraeth Leol 2000 / To Receive Disclosures of Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda - Section 51 Local Government Act 2000

Ni wnaeth yr un aelod na'r Clerc ddatgan buddiant / No declerations made by any member on any items on the agenda

4 Mabwysiau Polisi a Ffurflen Gais ar Gyfer Rhoddion Adran 137 – To adopt a Policy and Application Form for Section 137 Financial Aid

Polisi / Policy

Dosbarthwyd gopi o'r Polisi yn y Gymraeg a Saesneg i pob aloed fel a cytunwyd arno yn y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd dyddiedig 5 Mehefin 2019.

Gwnaed ambell o addasiadau/gwelliannau.

'Roedd yr aelodau yn fodlon gyda'r cynnwys a gofynnwyd i'r ei roi gerbron y Cyngor i'w gymeradwyo yn y cyfarfod nesaf o'r Cyngor llawn a gynhelir 15 Gorffennaf 2019

Ffurflen Gais / Application Form

Dosbarthwyd enghraifft o ffurflen gais gan Gynghorau Cymuned yng Nghymru fel man cychwyn.
Roedd yr aelodau oll yn gytun fod angen cadw'r ffurflen mor syml ag sy'n bosibl.
Aethpwyd ati i lunio y ffurflen cais gyda pob aelod yn cynnig awgrymiadau a sylwadau.
Trafodwyd yr amserlen. AWJ o'r farn fod angen dod ar dyddiad cau derbyn y ffurfleni ymlaen.

Awgrymwyd gan HJO - ar gyfer prosiectau penodol bydd y Rheolwr yn llunio ffurflen gais gwahanol fydd yn cynnwys gofyniadau ychwanegol megis manylion y prosiect. Dull ariannu ac yn y blaen

Argymhellion i'r Cyngor-

i) Fod y Cyngor yn mabwysiadu y Polisi Rhoddion fel ei ddosbarthwyd .
ii) Fod y Cyngor yn cymeradwyo'r Ffurflen Gais ar gyfer Derbyn Rhoddion Ariannol fel ei ddosbarthwyd.

Recommendation to Council
i) For the Council to adopt the Financial Aid Policy as distributed
ii) For the Council to approve the Application Form for Financial Aid as distributed.

5 Cyllideb 2019-20 – Adolygiad Chwarter Cyntaf – 2019-20 Budget First Quarter Review

Dosbarthwyd copïau o'r canlynol i bob aelod

- Cyfrif Incwm a Gwariant am y cyfnod 1 Ebrill 2019 i 30 Mehefin 2019
- Cysoniad y Banc i 30 Mehefin 2019
- Y Gyllideb yn erbyn Gwir Wariant 30 Mehefin 2019 ac Ymrwymiadau at 31 Mawrth 2020
- Balansau y Cyngor ar 30 Mehefin 2019
- Datganiadau Banc (y ddau gyfrif) at 30 Mehefin 2019

'Roedd y Rheolwr eisoes wedi anfon copïau o'r uchod i bob aelod ymlaen llaw.

Gofynnwyd ambell i gwestiwn gan yr aelodau ar rhai o'r ffigyrau ac roeddynt yn fodlon gydag ymateb y Clerc.

Cymeradwywyd y papurau ac fe'i harwyddwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor

Balansau fel adroddwyd ond wedi ei addasu ar gyfer yr uchod felly -l

Cysoniad y Banc i 30 Mehefin 2019 / Bank Reconiliation to 30 June 2019	
Balansau'r Banc i 30 Mehefin/June 2019 – Balances in the Bank	(£32,206.73)
- Llai Credydwyr a Sieciau heb eu cyflwyno / Less Creditors & Unpresented Cheques	£10,898.48
+ Dyledwyr / Debtors	(£673.38)
Is-gyfanswm - Cyfanswm yr Arian ar 30 Mehefin 2018 / Sub Total	**(£29,378.34**)
+ Praesept heb gyrraedd (rhan 2) / Praesept as yet not received	(£27,500.00)
Is-gyfanswm / Sub Total	**(£56,878.34**)
- Gwariant ymrwymedig i 31/3/2019 / Committed Expenditure to 31 March 2019	£52,631.34)
+ Incwm heb gyrraedd i 31/3/2019/ Income due to 31 March 2019	(£2,858.07)
Is-gyfanswm / Sub Total	**(£7,123.00)**
- Llai Cronfeydd Penodol (£5,000 AWG Cronfa Adnewyddu Offer Cae Chwarae) / Less Specific Funds (£5,000 in reserve & £1,000 Playing Fields Renewal Fund)	(£7,000.00)
Grant CCSQ ymlaen llaw / CCSQ Grant in advance	(£123.00)
Cyfanswm Gor neu (Tan) wariant y rhagwelir i 31 Mawrth 2020 / Total Overspent (u spend expected as at 31 March 2020	(**dim)**

Cronfeydd y Cyngor ar 30 Mehefin 2019 / Specific Funds as at 30 June 2019	
Arian Wrth Gefn - Polisi'r Cyngor / General Reserve Fund	(£5,000.00)
Cronfa Adnewyddu Offer Caeau Chwarae / Playing Fields Renewal Fund	(£2,000.00)
Grant Ymlaen Llaw - CCSQ	(£123.00)
Cyfanswm y Cronfeydd / Total Specific Funds	**(£7,123.00)**

Nodwyd y canlynol -

Pennawd "Datblygiadau" 2019-20 –

- Cyllideb gychwynnol yn £620.00

Ychwaneger –

- Tanwariant 2019-20 £2,432.97
- Ad-daliad yswiriant gan Gwmni Beechcroft Lloches Bws Cae'r Moel £2,178.69
- Cyllideb lwfansau Aelodau £900.00
- Gwarged o gyllideb Pensiwn £446.83
- Amrywiol Eraill (man addasiadau) £314.09

Yn rhoi cyfanswm o **£6,264.40 yn y gyllideb Datblygiadau heb ei ymrwymiad**

Nodwyd fod sawl pennawd arall yn y gyllideb heb ei ymrwymo cyfwerth a **£3,684.92** yn rhoi cyfanswm o **£9,949.32** ar gael ar gyfer Datblygiadau yn y flwyddyn 2019-20.

Nodwyd gan y Rheolwr fod datblygu gwefan y Cyngor wedi ei adnabod gan y Cyngor fel blaenoriaeth. Bydd angen pori dros ganlyniad yr holiaduron cyn llunio rhestr o waith cyn ymrwymo dim pellach o'r gyllideb

Argymhelliad i'r Cyngor-

i) Fod y Cyngor yn derbyn cywirdeb y balansau fel y nodwyd

ii) Fod y Cyngor yn nodi fod yna swm o £6,264.40 yn y gyllideb ar y pennawd "Datblygiadau" yn 2019/20

iii) Fod y Cyngor yn cadw'r tanwariannau posibl eraill o £3,684.92 yn y gyllideb gan ei fod yn gynnar yn y flwyddyn ac i adolygu'r sefyllfa yn y cyfnod monitro'r gyllideb nesaf.

iv) Fod y Cyngor yn derbyn mai datblygu gwefan y Cyngor yw'r flaenoriaeth gwariant eleni ac yn disgwyl am adroddiad terfynol yr ymgysylltu cyn ymrwymo gwariant pellach ar y pennawd "Datblygiadau"

Recommendaton to the Council-

i) That the Council accepts the balances as noted

ii) That the Council notes that there is a balance of £6,264.40 in the "Development" heading in the 2019-20 budget.

iii) That the Council keeps the remaining potential underspend of £3,684.92 in the budget until the next budgetery review is held in September 2019 as it is too early in the financial year.

iv) That the Council accepts that developing the website is the priority for this financial year and wait for the final report on the consultation with the community before committing any expenditure form the "Development" heading.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.35 yr hwyr

Cafwyd y Cofnodion yn rhai cywir -	
Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor	
Dyddiad -	